## P-05-739 Achub Gwasanaethau TWF - Gohebiaeth – gan y deisebydd at y Cadeirydd

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau ar ohebiaeth y Gweinidog.

Rydym wedi croesawu'r newyddion bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o arian i wasanaethau'r prosiect 'Cymraeg i Blant', sy'n hybu defnydd y Gymraeg yn y teulu. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi gwrando ac wedi penderfynu adfer y gwasanaethau pwysig hyn.

Bu'r prosiect Twf yn rhan bwysig iawn o'r ymdrech i wella defnydd o'r Gymraeg rhwng rhieni a phlant, a buodd destun pryder na fydd unrhyw brosiect yn rhedeg mewn nifer fawr o siroedd. Felly, mae adfer y gwasanaethau hyn ledled y wlad yn newyddion calonogol gan fod trosglwyddiad iaith o fewn y teulu yn faes allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y Llywodraeth, yn y bôn, ddim ond wedi dadwneud y penderfyniad gwallus a wnaed y llynedd i dorri'r gwasanaethau. Credwn felly fod y profiad hwn yn codi cwestiynau ehangach ynghylch cynllunio ariannol strategol hirdymor y Llywodraeth pan ddaw hi at normaleiddio a chynyddu defnydd y Gymraeg.

Diolch eto am ystyriaeth y pwyllgor o'r ddeiseb.

Yr eiddoch yn gywir,

David Williams,

Llefarydd Blynyddoedd Cynnar, Grŵp Addysg, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg